COMISIYNYDD SAFONAU
STANDARDS COMMISSIONER

# COMISIYNYDD SAFONAU'R SENEDD:
## Adroddiad Blynyddol 2020 - 2021



Prif gyfrifoldebau'r Comisiynydd Safonau yw cael cwynion am ymddygiad Aelodau o'r Senedd ac ymchwilio iddynt, cyflwyno adroddiadau i'r Senedd am ei ymchwiliadau, a rhoi cyngor i Aelodau o'r Senedd a'r cyhoedd am y gweithdrefnau gwyno.



**Douglas Bain CBE TD**
Comisiynydd Safonau'r Senedd

Mae copi electronig o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan Comisiynydd Safonau'r Senedd: **www.comisiynyddsafonaucymru.org.**

Mae copïau o'r adroddiad hwn hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch gan gynnwys Braille, print bras, sain neu gopi caled gan:


**Comisiynydd Safonau'r Senedd**
**Y Pierhead**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: 0300 200 6542
E-bost: **Comisiynydd.Safonau@senedd.cymru**

COMISIYNYDD
SAFONAU
STANDARDS
COMMISSIONER

# COMISIYNYDD SAFONAU'R SENEDD:

## Adroddiad Blynyddol 2020 - 2021


Acceptance and Equality

# Cynnwys

1. Cyflwyniad ........ 3
2. Swyddogaethau a dyletswyddau'r Comisiynydd ........ 4
3. Cwynion ........ 5
4. Gwaith arall ........ 12
5. Gwariant ........ 13
6. Y flwyddyn sydd i ddod ........ 15
7. Diolchiadau ........ 16



# 1. Cyflwyniad

**1.** Ar ôl dechrau fy swydd fel Comisiynydd Safonau'r Senedd ar 1 Ebrill 2021, rwyf yn gyfrifol am gyflwyno'r adroddiad ar sut y cyflawnwyd swyddogaethau'r Comisiynydd yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2021. Bûm yn gweithio fel Comisiynydd Safonau Dros Dro'r Senedd drwy gydol y flwyddyn honno.

**2.** Roedd yr holl waith a wnaed yn ystod y flwyddyn adrodd honno yn digwydd yng nghyd-destun pandemig COVID-19. Er bod hynny wedi cyfyngu ar rai gweithgareddau a gynlluniwyd, mae'n dyst i wydnwch a dyfeisgarwch Aelodau'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad, staff Comisiwn y Senedd a'm staff fy hun nad oedd y broses gwyno wedi cael ei heffeithio'n sylweddol gan yr amryw gyfyngiadau a roddwyd ar waith.

**3.** Yn gyffredinol, mae ymddygiad yr Aelodau yn parhau i fod o safon uchel. Cafwyd cwynion derbyniadwy yn erbyn dim ond wyth o'r 60 Aelod. Er i'r flwyddyn weld cynnydd o 104% yn nifer y cwynion a gafwyd, roedd hyn yn bennaf oherwydd ymddygiad Neil McEvoy, sydd bellach yn gyn-Aelod. Gwnaeth chwe chwyn, ac nid oedd yr un ohonynt yn dderbyniadwy, yn erbyn Aelodau eraill, ac roedd yn destun 97 o'r cwynion derbyniadwy am ei ymddygiad.

**4.** Mae'r adroddiad hwn, ar ôl crynhoi dyletswyddau statudol y Comisiynydd, yn rhoi gwybodaeth am y cwynion yr ymdriniwyd â hwy, gwaith arall a wnaed yn ystod y flwyddyn a'r gwariant a gafwyd. Mae'n cloi gyda golwg fer ar feysydd gwaith posibl ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022.

# 2. Swyddogaethau a dyletswyddau'r Comisiynydd

**5.** Crëwyd swyddfa Comisiynydd Safonau y Senedd gan adran 1(1) o Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009 ('y Mesur').[1] Mae adran 5 o'r Mesur yn darparu ar gyfer annibyniaeth y Comisiynydd o gyfarwyddyd neu reolaeth y Senedd.

**6.** Mae adran 4 o'r Mesur yn darparu ar gyfer penodi Comisiynydd Dros Dro i gyflawni swyddogaethau'r Comisiynydd os yw'r rôl honno'n wag neu os nad yw'r Comisiynydd, am ba bynnag reswm, yn gallu gweithredu. Mae gan Gomisiynydd Dros Dro yr holl bwerau a dyletswyddau sydd gan y Comisiynydd.

**7.** Nodir swyddogaethau'r Comisiynydd yn adrannau 6 a 7 o'r Mesur a gellir eu crynhoi fel a ganlyn –

- Derbyn, ymchwilio neu adrodd ar unrhyw gŵyn bod Aelod wedi methu â chydymffurfio â gofyniad o'r Cod Ymddygiad[2] neu ddarpariaeth berthnasol arall;[3]
- Cynghori Aelodau o'r Senedd ac aelodau'r cyhoedd am y gweithdrefnau ynglŷn â gwneud cwynion ac ymchwilio i gwynion;
- Rhoi cyngor i'r Senedd ar unrhyw fater o egwyddor gyffredinol sy'n ymwneud â safonau ymddygiad Aelodau, y weithdrefn ar gyfer ymchwilio i gwynion neu unrhyw fater arall sy'n ymwneud â hyrwyddo, annog a diogelu safonau uchel o ymddygiad mewn swydd gyhoeddus fel Aelod o'r Senedd.

**8.** Mae adran 19 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd, cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, gyflwyno adroddiad i'r Senedd ar sut mae swyddogaethau'r Comisiynydd wedi cael eu harfer yn ystod y flwyddyn honno.

---

[1] http://www.legislation.gov.uk/mwa/2009/4/contents;http://www.legislation.gov.uk/mwa/2009/4/contents/enacted/welsh. Newidiwyd teitl y swydd o Gomisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 7 o Ddeddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru), a ddaeth i rym ar 6 Mai 2020.

[2] https://www.assembly.wales/en/memhome/code-conduct-mem/Pages/default.aspx

[3] Fel y'i diffinnir yn adran 6 (3) o'r Mesur

# 3. Cwynion

## Cyflwyniad

**9.** Mae adran 10 o'r Mesur yn gwneud darpariaethau i'r Comisiynydd ymchwilio i gwynion[4]. Mae adran 10(1) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd ymchwilio i gwynion a chyflwyno adroddiad arnynt yn unol â'r Rheolau Sefydlog ac unrhyw reolau a fabwysiadwyd gan y Cynulliad sy'n ymwneud ag ystyried cwynion. Y rheolau cyfredol i'w dilyn yw'r Weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad ('y Weithdrefn').[5] Mae adran 10(2) o'r Mesur yn darparu mai "mater i'r Comisiynydd yw penderfynu pryd a sut y dylid cynnal ymchwiliad a chyflwyno adroddiad ar ei ganlyniad".

## Cwynion a ddygwyd ymlaen o 2019 - 20

**10.** Ar ddechrau'r flwyddyn adrodd cafodd wyth cwyn eu dwyn ymlaen o 2019-20. Barnwyd bod dau o'r cwynion hyn eisoes yn dderbyniadwy. Roedd fy rhagflaenydd wedi ymchwilio'n rhannol i un ohonynt, a wnaed ym mis Hydref 2017, cyn iddo ymddiswyddo. Cafodd fy ymchwiliad i'r gŵyn arall a wnaed ym mis Medi 2019, ei ohirio er mwyn osgoi'r risg o wneud niwed i ymchwiliad gan yr heddlu ac achosion troseddol yn erbyn un o aelodau staff yr Aelod dan sylw ar ôl hynny. Gohiriwyd yr ymchwiliad hwnnw tan mis Mawrth 2021, ac yna fe'i gohiriwyd eto y mis canlynol oherwydd y gwaharddiad ar gynnal ymchwiliadau yn ystod cyfnod etholiad y Senedd. Rwy'n rhagweld y byddaf yn gallu cyflwyno fy adroddiad i'r Pwyllgor ymhen ychydig fisoedd. Ym mis Mehefin 2020 cyflwynais adroddiad fy ymchwiliad i'r gŵyn a gafwyd yn 2017 i'r Pwyllgor ond erbyn diwedd y flwyddyn nid oeddwn i wedi gallu cwblhau'r gwaith o'i ystyried.

**11.** Ni wnaed unrhyw benderfyniad ynghylch derbynioldeb y chwe chŵyn arall. Erbyn diwedd y flwyddyn adrodd, barnwyd bod pedair o'r chwe chŵyn hyn yn annerbyniadwy. Barnwyd bod y ddwy gŵyn arall o'r chwech a gafwyd yn annerbyniadwy ac roedd adroddiadau fy ymchwiliad iddynt wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2020. Cyhoeddodd y

---

[4] At ddibenion yr adroddiad hwn, ystyr 'cwyn' yw achlysur pan gyfathrebir â'r Comisiynydd yn honni bod Aelod o'r Senedd, plaid wleidyddol, sefydliad arall, neu berson arall wedi torri un neu fwy o ddarpariaethau Cod Ymddygiad Aelodau'r Cynulliad ('y Cod') neu ddarpariaeth arall a bennir yn Rheol Sefydlog 22.2. I gael rhagor o wybodaeth, gweler Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Safonau 2019-20 paragraffau 03.02 i 03.04 https://senedd.wales/laid%20documents/gen-ld13251/gen-ld13251-w.pdf


[5] https://senedd.wales/en/memhome/code-conduct-mem/Pages/procedure-complaints.aspx

Pwyllgor ei adroddiad ar un o'r cwynion hyn ym mis Tachwedd 2020[6] ond nid oedd wedi gallu cwblhau ei ystyriaeth o'r llall erbyn diwedd y flwyddyn.

## Cwynion newydd

**12.** Yn ystod y flwyddyn, cafwyd 216 o gwynion newydd. Dyma'r nifer uchaf o bell ffordd ers sefydlu swyddfa'r Comisiynydd yn 2009, ac mae'n gynnydd o 104% ers 2019-20.

***Ffigur 1: Crynodeb o'r cwynion a gafwyd yn 2020-21***




**13.** O'r 216 o gwynion hyn, barnwyd bod 106 yn dderbyniadwy ac 89 yn annerbyniadwy. Tynnwyd dwy gŵyn yn ôl cyn imi wneud penderfyniad ynghylch eu derbynioldeb. Nid oedd unrhyw benderfyniad wedi'i wneud erbyn diwedd y flwyddyn ar dderbynioldeb yr 19 cwyn a oedd yn weddill. Nid oedd yn bosibl ystyried 4 o'r 19 o gwynion hyn oherwydd y risg o niwed i ymchwiliadau'r heddlu. Daeth y 15 cwyn a oedd yn weddill i law dim ond ychydig cyn diwedd y flwyddyn.

**14.** Bu'n rhaid gohirio fy ymchwiliad i wyth o'r cwynion derbyniadwy er mwyn osgoi'r risg o niwed i ymchwiliadau troseddol i ymddygiad trydydd partïon. Roeddent yn dal i fod wedi'u gohirio ar ddiwedd y flwyddyn. Ymdriniwyd â dwy gŵyn dderbyniadwy o dan y weithdrefn gywiro a ddarperir gan baragraff 10.1 o'r Weithdrefn. Cyflwynwyd adroddiadau i'r Pwyllgor mewn perthynas â'r 96 cwyn dderbyniadwy arall. Roedd tri o'r adroddiadau hyn yn ymdrin ag 87 o gwynion yn erbyn Neil McEvoy, ac ni chafodd ei ailethol yn etholiadau 2021. Erbyn diwedd y flwyddyn, nid oedd y Pwyllgor wedi gallu cwblhau ei ystyriaeth o'r adroddiadau hyn. Cafodd

[6] Adroddiad 02-20 i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9

adroddiadau yn ymwneud â chwynion yn erbyn dau Aelod arall eu cyflwyno a'u hystyried gan y Pwyllgor.[7]

***Tabl 1: Cwynion a gafwyd, ffynhonnell a derbynioldeb***

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyflwynwyd** | 30 | 26 | 40 | 107 | 216 |
| **% gan y cyhoedd** | 83.3 | 73.1 | 86 | 76.4 | 94 |
| **% gan Aelod** | 3.3 | 11.5 | 7 | 13.2 | 5 |
| **% gan Glerc y Senedd** | 13.3 | 15.4 | 7 | 10.4 | 1 |
| **% nad oeddent yn dderbyniadwy** | 89.7 | 80.8 | 76.7 | 85.9 | 41 |
| **% derbynioldeb heb ei benderfynu erbyn diwedd y flwyddyn** | 10.3 | 11.5 | 16.3 | 6.6 | 9 |

**15.** Mae'r cynnydd yn nifer y cwynion a wnaed gan y cyhoedd a'r gostyngiad yn nifer y cwynion annerbyniadwy yn deillio yn bennaf oherwydd 97 o gwynion ynghylch ymddygiad Neil McEvoy.

**16.** Ar wahân i bedair cwyn a wnaed gan y Llywydd yn rhinwedd ei swydd swyddogol ac un hunangyfeiriad, cafodd yr holl gwynion a wnaed yn erbyn Aelodau eu gwneud gan Neil McEvoy. Roedd pob un ohonynt yn annerbyniol, heb unrhyw deilyngdod ac yn ddiamau fe'u gwnaed mewn ymgais i sgorio pwyntiau gwleidyddol.

**17.** Lle bo gan Glerc y Senedd sail resymol dros amau bod Aelod wedi methu â chydymffurfio ag unrhyw un o'r darpariaethau perthnasol a bod yr ymddygiad yn ymwneud â'i rôl, rhaid iddi fel y prif swyddog cyfrifyddu riportio'r mater i'r Comisiynydd ac mae'n rhaid i'r Comisiynydd, ac eithrio yn achos methiant honedig i gofrestru neu ddatgan buddiant, drin y gŵyn yn yr un modd ag unrhyw gŵyn arall.[8] Dros y flwyddyn, cyfeiriodd y Clerc 3 mater ataf.

[7] Adroddiadau 05-21 ac 06.21 i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9

[8] Adran 9 o'r Mesur

*Tabl 2: Rhesymau dros annerbynioldeb*[9]

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ddim yn ysgrifenedig**[10] **(Maen Prawf i)** | - | - | - | - | 0 |
| **Ddim yn ymwneud ag ymddygiad yr Aelod a nodwyd (Meini Prawf ii & iv)** | 2 | 1 | 1 | 5 | 2 |
| **Cwyn neu achwynydd anhysbys heb fanylion digonol (Maen Prawf iii)** | 0 | 0 | 1 | 3 | 0 |
| **Ddim o fewn yr amser a ganiateir (Maen Prawf v)** | 0 | 0 | 0 | 2 | 1 |
| **Sylwedd annigonol i gyfiawnhau ymchwiliad pellach (Maen Prawf vi)** | 26 | 21 | 40 | 82 | 86 |

*Tabl 3: Esboniad pellach o gwynion y canfuwyd eu bod yn annerbyniol oherwydd sylwedd annigonol i gyfiawnhau ymchwiliad pellach (Maen Prawf vi)*

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Mynegiad barn** | 3 | 0 | 8 | 53 | 39 |
| **Tystiolaeth annigonol** | 4 | 6 | 8 | 10 | 27 |
| **Safonau gwasanaeth** | 3 | 5 | 9 | 8 | 3 |
| **Islaw'r trothwy cofrestru** | 3 | 0 | 0 | 3 | 1 |
| **Ynglŷn ag ymddygiad Gweinidog** | 3 | 2 | 2 | 3 | 10 |
| **Ynglŷn ag ymddygiad yn y Siambr** | 1 | 3 | 1 | 0 | 0 |
| **Arall** | 9 | 5 | 12 | 5 | 6 |

**18.** Y rheswm mwyaf cyffredin o bell ffordd dros farnu bod cwynion yn annerbyniadwy oedd eu bod yn ymwneud â sut y mynegodd Aelod ei farn. Mae gan Aelodau, fel pawb arall, hawl i ryddid mynegiant ac er nad yw'r hawl honno'n absoliwt yn y byd gwleidyddol, cydnabyddir ei fod yn bosibl dweud pethau na fyddent yn dderbyniol mewn mannau eraill. Cafodd sawl un o'r mynegiadau barn y cwynwyd amdanynt eu gwneud ar y cyfryngau cymdeithasol a byddwn

[9] Mae'r meini prawf derbynioldeb ym mharagraff 3.1 o'r Weithdrefn

[10] Ni chofnodwyd y wybodaeth hon cyn 2020-21

eto'n atgoffa'r Aelodau o'r angen i fod yn ofalus cyn 'hoffi' neu 'ail-drydaru' negeseuon sy'n cael eu postio gan rywun arall.

**19.** Roedd y ffaith nad oedd digon o dystiolaeth i'm bodloni y gallai'r ymddygiad y cwynwyd amdano fod wedi digwydd, a phe bai'n cael ei phrofi, yn gyfystyr â thorri'r Cod Ymddygiad neu ddarpariaeth berthnasol arall, yn parhau i fod yr ail reswm mwyaf cyffredin dros benderfynu fod cwyn yn annerbyniadwy. Cyn penderfynu bod cwyn yn annerbyniadwy ar y sail honno, mae'n arfer gennyf roi cyfle i'r achwynydd roi rhagor o wybodaeth. Nid oes llawer yn manteisio ar y cyfle hwnnw.

**20.** Mae cylch gwaith y Comisiynydd wedi'i gyfyngu i ymchwilio i achosion honedig lle torrwyd y Cod Ymddygiad neu i faterion eraill a reolir gan Reol Sefydlog 22. Ni fyddai gwasanaeth gwael gan Aelod yn groes i unrhyw un o'r materion hynny, a chan hynny mae cwynion am wasanaeth gwael honedig gan Aelod bob amser yn annerbyniadwy. Yr ateb ar gyfer gwasanaeth gwael o'r fath yw drwy'r blwch pleidleisio, nid drwy gŵyn i'r Comisiynydd.

**21.** O dan Reolau Sefydlog 2.6, 13.8A ac 17.24A mae'n ddyletswydd ar Aelodau i ddatgan buddiannau ariannol penodedig a buddiannau perthnasol eraill cyn cymryd rhan yn nhrafodion y Cyfarfod Llawn neu bwyllgorau. O dan Reol Sefydlog 2.2 mae'n ofynnol i Aelodau gofrestru buddiant ariannol a buddiant penodol arall mewn cofrestr a gedwir gan y Swyddfa Gyflwyno ar ran y Llywydd. Mae'n ofynnol i Aelodau gofrestru unrhyw roddion, lletygarwch, budd neu fantais faterol arall sydd â gwerth dros £320. Mewn blynyddoedd blaenorol roedd cwynion bron bob amser yn ymwneud â methiant i gofrestru cynigion lletygarwch mewn gemau rygbi a phêl-droed rhyngwladol. Efallai mai'r ffaith na fu'n bosibl cynnal digwyddiadau a chynigion lletygarwch o'r fath o ganlyniad i pandemig COVID-19 yw'r rheswm pam mai dim ond un gŵyn o'r fath a wnaed yn ystod y flwyddyn adrodd. Roedd y cwynion ynghylch methu â datgan buddiant yn ymwneud ag ymddygiad Neil McEvoy - honnwyd ei fod wedi methu â datgan buddiant perthnasol ar ddau achlysur cyn cymryd rhan yn nhrafodion y Pwyllgor Deisebau. Cyflwynwyd fy adroddiadau mewn perthynas â'r cwynion hyn i'r Pwyllgor ym mis Tachwedd 2020 a mis Mawrth 2021 ond erbyn diwedd y flwyddyn nid oedd y Pwyllgor wedi gallu cwblhau ei ystyriaeth o'r naill na'r llall.

**22.** Mae adran 8 o'r Mesur yn ei gwneud yn glir nad oes gan y Comisiynydd rôl mewn perthynas â chwynion am gamymddygiad honedig gan Weinidog. Cafodd y deg achwynydd a honnodd gamymddwyn gweinidogol eu cyfeirio at swyddfa'r Prif Weinidog.

**23.** Ni chafwyd unrhyw gwynion am ymddygiad Aelodau yn y Siambr. O dan y protocol rhwng y Llywydd a'r Comisiynydd, byddwn wedi trin unrhyw gwynion o'r fath fel rhai annerbyniadwy

a'u cyfeirio at y Llywydd i'w hystyried. Mae'n bleser gennyf nodi yn y Cod Ymddygiad a ddaeth i rym ar ddechrau'r Chweched Senedd bod y weithdrefn atgyfeirio wedi'i ffurfioli.

**24.** Fel mewn blynyddoedd blaenorol, cafwyd nifer o gwynion bod Aelodau wedi methu ag ymdrin â materion eraill, megis gweithredoedd sefydliad addysgol a gweithredoedd Llywodraeth Cymru. Nid yw ystyried cwynion o'r fath o fewn cylch gorchwyl y Comisiynydd. Ym mhob achos o'r fath, cysylltir â'r achwynydd a'i gyfeirio at y sefydliad priodol i ystyried ei gŵyn.

***Tabl 4: Cwynion yn ôl pwnc***

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ymddygiad ar y cyfryngau cymdeithasol** | 5 | 0 | 7 | 58 | 60 |
| **Camddefnyddio adnoddau** | 3 | 4 | 8 | 15 | 25 |
| **Safonau gwasanaeth** | 6 | 5 | 9 | 13 | 7 |
| **Methu â chofrestru/datgan buddiant** | 4 | 3 | 4 | 9 | 95 |
| **Y tu hwnt i gylch gwaith** | 7 | 7 | 6 | 7 | 12 |
| **Ymddygiad arall** | 5 | 7 | 9 | 4 | 17 |
| **CYFANSWM** | **30** | **26** | **40** | **107** | **216** |

**25.** Ymddygiad ar y cyfryngau cymdeithasol oedd y rheswm mwyaf cyffredin o hyd ar gyfer y cwynion a gafwyd. Roedd y cynnydd yn nifer y cwynion am y defnydd o adnoddau'r Senedd yn deillio o nifer o gwynion a gefais yn y cyfnod cyn etholiadau'r Senedd. Roedd y cwynion hyn yn honni achosion o dorri'r Rheolau ar ddefnyddio adnoddau Comisiwn y Senedd mewn perthynas â defnyddio logos pleidiau a brandio ar ddeunydd a ariennir gan y Senedd. Gwnaed llawer o'r rhain gan ymgeiswyr eraill. Roeddwn yn pryderu bod y Rheolau mewn perthynas â'r materion hyn yn aneglur, gan arwain at ddehongliadau gwahanol. Rwy'n croesawu'r ymdrechion sy'n cael eu gwneud i egluro'r materion hyn, a ddylai helpu i leihau nifer y cwynion o'r fath a geir. Cyfeiriwch at baragraff 21 i gael esboniad o ran y cynnydd enfawr yn nifer y cwynion am methu â datgan neu gofrestru buddiant

## Cwynion a ddygwyd ymlaen i 2021-22

**26.** Ar 31 Mawrth 2021 roedd yn rhaid i mi benderfynu ar dderbynioldeb 19 cwyn a gafwyd ychydig cyn y dyddiad hwnnw. Roedd naw cwyn dderbyniadwy yn parhau i fod yn destun ymchwiliad. Ar ddiwedd y flwyddyn, nid oedd y Pwyllgor wedi gallu cwblhau ei ystyriaeth o dri adroddiad a gyflwynwyd yn 2020-21, un o 2017-18 ac un o 2019-20. Roedd pob un o'r pum adroddiad yn ymwneud ag ymddygiad Neil McEvoy.

**27.** Erbyn dyddiad yr adroddiad hwn roeddwn wedi penderfynu bod 14 o'r 19 o gwynion yn annerbyniadwy, ac fe gafodd un arall ei thynnu'n ôl. Ni fu'n bosibl cymryd camau mewn perthynas â'r 4 arall er mwyn osgoi'r risg o niwed i ymchwiliadau'r heddlu.

## Tueddiadau

**28.** Mae ymddygiad un cyn-Aelod, Neil McEvoy, wedi effeithio ar yr holl ffigurau ar gyfer 2020-21. Gwnaeth 6 cwyn ac roedd yn destun 91 o gwynion a phum adroddiad i'r Pwyllgor. Os ydym yn anwybyddu ei ymddygiad, ni fu unrhyw newid sylweddol yn nifer y cwynion a gafwyd yn ystod y flwyddyn.

**29.** Ar wahân i'r cwynion yn erbyn Mr McEvoy o fethu â datgan buddiant perthnasol, roedd y nifer fwyaf o gwynion o bell ffordd yn ymwneud â sylwadau a wnaed gan Aelodau ar y cyfryngau cymdeithasol. Deallaf y bydd Cynulliad Gogledd Iwerddon yn darparu rhaglen hyfforddi â ffocws i'w aelodau mewn ymgais i leihau nifer y cwynion am ymddygiad o'r fath. Efallai yr hoffai'r Pwyllgor a'r Comisiwn fonitro cynnydd y fenter hon yng Ngogledd Iwerddon, gwerthuso ei heffeithiolrwydd ac, os yw'n briodol, darparu rhaglen debyg i Aelodau o'r Senedd.

**30.** Er bod lefel y cwynion annerbyniadwy wedi parhau ar lefel uchel, bydd y Cod Ymddygiad a ddaeth i rym ar ddechrau'r Chweched Senedd a'r rheolau a'r canllawiau gweithdrefnol newydd arfaethedig yn rhoi cyfle i leihau'r gweithgarwch gwastraffus hwn.

# 4. Gwaith arall

**31.** Yn ystod y flwyddyn cymerais gamau i sicrhau gwelliant pellach o ran bod yn agored ac yn dryloyw. Ers mis Ebrill 2020, rwyf wedi cyhoeddi, ar sail wirfoddol, wybodaeth ar fy ngwefan am fy muddiannau ariannol a buddiannau eraill o dan y categorïau sy'n ofynnol gan yr Aelodau. Mae ystadegau chwarterol ar gwynion a gafwyd wedi cael eu cyhoeddi ar y wefan honno ers mis Mehefin 2020. Yn dilyn trafodaethau gyda'r Prif Weithredwr, mae wedi bod yn bosibl cynnwys cost y cymorth cyfreithiol a chyfryngau a oedd ar gael i mi yn y wybodaeth ynghylch gwariant yn Adran 5 o'r adroddiad hwn.

**32.** Rwyf wedi rhoi tystiolaeth i nifer o ymchwiliadau yn ymwneud â safonau. Ym mis Tachwedd 2020 cyflwynais dystiolaeth ysgrifenedig i ymchwiliad Pwyllgor Safonau Ymddygiad Tŷ'r Cyffredin i'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Seneddol. Ym mis Ionawr 2021 rhoddais dystiolaeth lafar i Bwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd mewn cysylltiad â'i adolygiad o'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o'r Senedd. Ym mis Mawrth 2021 rhoddais dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus fel rhan o'i adolygiad 'Standards Matter 2'.

**33.** Ar sawl achlysur yn ystod y flwyddyn, cefais gyfarfodydd o bell â'r Prif Weithredwr i drafod materion gan gynnwys y defnydd o adnoddau Comisiwn y Senedd, cyflenwad staff fy swyddfa a'r ffordd y dylai cyngor cyfreithiol fod ar gael i mi. Fe wnes i gyfarfod o bell hefyd â Phrif Weithredwr a Chadeirydd Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd i drafod materion o ddiddordeb i'r ddwy ochr. Rwy'n croesawu'r cytundeb i gynnal cyfarfodydd tairochrog sawl gwaith y flwyddyn. Hefyd, cefais nifer o gyfarfodydd o bell gyda staff y Comisiwn mewn cysylltiad â'r adolygiad o'r Cod Ymddygiad, yr adolygiad arfaethedig o'r weithdrefn gwynion a materion yn ymwneud â chwynion penodol.

**34.** Yn anffodus, gwnaeth pandemig COVID-19 gyfyngu rhywfaint ar y gwaith a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn adrodd. Bu'n rhaid gohirio'r Gynhadledd Safonau, a oedd i fod i gael ei chynnal yng Nghaerdydd yn hydref 2020. Y gobaith yw y bydd modd ei chynnal yng Nghaerdydd pan ystyrir bod hynny'n ddiogel. Oherwydd y pwysau ychwanegol enfawr ar Heddlu De Cymru nid oedd yn bosibl cwblhau gwaith ar y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth arfaethedig er fy mod yn obeithiol y caiff ei gwblhau o fewn y misoedd nesaf. O ystyried y newidiadau sylweddol sy'n cael eu gwneud i'r Cod Ymddygiad ac yn cael eu hystyried ar gyfer y broses gwynion, penderfynais ohirio cyhoeddi'r canllawiau gwell i ddefnyddwyr nes bod yr holl newidiadau wedi'u gwneud.

# 5. Gwariant

**35.** O dan adran 3 a pharagraff 5 o'r Atodlen i'r Mesur, rhaid i Gomisiwn y Senedd dalu'r Comisiynydd y cyflog a'r lwfansau a gytunir yn nhelerau ac amodau'r penodiad. Rhaid i'r Comisiwn hefyd dalu'r holl dreuliau rhesymol yr eir iddynt yn gyfreithlon gan y Comisiynydd wrth gyflogi staff, prynu nwyddau neu wasanaethau, a thalu lwfansau neu dreuliau i dystion. Nid oedd Comisiynydd yn y swydd yn ystod y flwyddyn adrodd: y Comisiynydd Dros Dro fu'n gyfrifol am ymgymryd â'r holl swyddogaethau.

**36.** Mae'r guardant gan swyddfa'r Comisiynydd ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021 i'w weld yn Nhabl 5.

***Tabl 5: Gwariant swyddfa'r Comisiynydd 2020-21***

| | 2016 -17 £ | 2017 -18 £ | 2018 – 19 £ | 2019 – 20 £ | 2020 – 21 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Costau cyflogaeth y Comisiynydd*** | 17816 | 19535 | 26105 | 17446 | 0 |
| **Teithio a chynhaliaeth y Comisiynydd*** | 73 | 180 | 0 | 376 | 0 |
| **Lletygarwch a chostau eraill** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Costau cyflogaeth y Comisiynydd Dros Dro*** | 0 | 0 | 4786 | 10188 | 42517 |
| **Teithio a chynhaliaeth y Comisiynydd Dros Dro** | 0 | 0 | 695 | 2655 | 105 |
| **Lletygarwch a chostau eraill y Comisiynydd Dros Dro** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm gwariant y Comisiynydd a'r Comisiynydd Dros Dro** | **17889** | **19715** | **31586** | **30665** | **42622** |
| **Costau cyflogi staff**** | 4070 | 5756 | 44798 | 123630 | 92834 |
| **Teithio a chynhaliaeth staff [3]** | 0 | 0 | 0 | 504 | 0 |
| **Cyfanswm costau staff** | **4070** | **5756** | **44798** | **124134** | **92834** |
| **Gwariant arall a gafwyd [4]** | 0 | 0 | 0 | 1661 | 25259 |
| **CYFANSWM GWARIANT SWYDDFA'R COMISIYNYDD** | **21959** | **25471** | **76384** | **156460** | **160715** |

**37.** Drwy gydol y flwyddyn, gwnaed pob ymdrech eto i gadw'r gwariant mor isel â phosibl cyn belled â bod dyletswyddau'r Comisiynydd yn cael eu cyflawni'n iawn. Er bod cyfanswm cost swyddfa'r Comisiynydd wedi cynyddu 2.7% o'i gymharu â 2019-20, nid yw hynny'n adlewyrchiad cywir o'r arbedion a wnaed gan y swyddfa. Cynyddodd nifer y cwynion a gafwyd yn ystod 2020-21 104% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. At hynny, mae ffigur 2020-21 ar gyfer 'Gwariant arall a gafwyd' yn cynnwys materion nad ydynt wedi'u priodoli'n flaenorol i gost y swyddfa. Y mwyaf arwyddocaol o'r rhain yw £16667 ar gyfer cyngor cyfreithiol a roddwyd a £3600 ar gyfer cymorth cyfryngau. Gostyngodd costau staff yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i adleoli un o'r ddau aelod o staff amser llawn a'r aelod rhan-amser newydd o staff a gymerodd ei lle ar raddfa gyflog is. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda'r Prif Weithredwr ynghylch y cyflenwad staff priodol.

# 6. Y flwyddyn sydd i ddod

**38.** Bydd yr hyn y gellir ei gyflawni'n ymarferol yn y flwyddyn i ddod yn dibynnu i raddau ar y sefyllfa o ran pandemig COVID-19 ac ar nifer a chymhlethdod y cwynion a geir. At ddibenion cynllunio, rwyf wedi tybio y bydd bywyd yn dychwelyd bron i'r arfer yn ystod y flwyddyn ac y bydd gostyngiad sylweddol yn nifer a chymhlethdod y cwynion o gymharu â 2020-21.

**39.** Byddaf yn parhau i weithio'n agos gyda'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad a'i staff ar y weithdrefn newydd arfaethedig ar gyfer ymdrin â chwynion. Pan fydd y gwaith hwnnw wedi'i gwblhau, bydd canllawiau cynhwysfawr newydd ar gael ar fy ngwefan. Byddaf yn ystyried ffyrdd eraill o wneud y cyhoedd yn fwy ymwybodol o'u hawliau o dan y broses gwyno.

**40.** Byddaf hefyd yn gweithio gyda'r Pwyllgor ar ei adolygiad o'r Polisi Urddas a Pharch gyda'r nod o'i wneud yn fwy hawdd ei ddefnyddio a sicrhau ei fod yn cyd-fynd â darpariaethau perthnasol y Cod Ymddygiad newydd.

**41.** Gobeithio y bydd y Gynhadledd Safonau, a ohiriwyd yn hydref 2020, yn cael ei chynnal yng Nghaerdydd ryw adeg yn ystod y flwyddyn. Bydd yn gyfle defnyddiol i drafod materion ac arferion gorau gyda'm cymheiriaid o ddeddfwrfeydd o bob cwr o Ynysoedd Prydain. Byddaf yn ystyried adborth ynglŷn â'r awydd i drefnu cyfarfod tebyg i reoleiddwyr ymddygiad eraill yng Nghymru. Byddwn yn ystyried y posibilrwydd o gynnal digwyddiad i hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad moesegol yn y Senedd ac mewn mannau eraill o fywyd cyhoeddus.

**42.** Pan fydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Heddlu De Cymru wedi'i gwblhau, byddaf yn ceisio cytundeb Prif Gwnstabliaid eraill Cymru i ymrwymo i femoranda tebyg.

**43.** Bydd y trafodaethau gyda'r Prif Weithredwr ar gyflenwad staff fy swyddfa yn dod i ben. Byddwn yn ystyried pa mor ddymunol fyddai cynnwys y ffigyrau ar gyfer costau eitemau fy swyddfa megis costau llety.

**44.** Byddaf yn gweithio gyda'r Prif Weithredwr a'i staff ar brotocol sy'n nodi'r egwyddorion o ran sut y dylid rheoli'r cydberthynas rhwng y ddwy swyddfa.

# 7. Diolchiadau

**45.** Drwy gydol y flwyddyn cefais gymorth gan lawer o staff ar bob lefel o bob rhan o'r Comisiwn. Unwaith eto, rhoddodd Jonathan Thomas ac Abigail Phillips, y ddau aelod o staff a gafodd secondiad i fy swyddfa, gefnogaeth ragorol imi, gan fynd gam ymhellach yn aml i sicrhau bod terfynau amser yn cael eu bodloni. A phan symudodd Abigail ymlaen i gynorthwyo gyda'r gwaith o baratoi ar gyfer y Chweched Senedd, daeth Ryan Bishop i weithio yn ei lle. Fe addasodd yn gyflym iawn i'r maes gwaith cwbl newydd hwn, gan ymgymryd â'r dasg frawychus o fy nghefnogi gyda'r nifer sylweddol iawn o gwynion gan Neil McEvoy ac yn ei erbyn. Does dim amau, heb gefnogaeth y tri unigolyn hyn, byddai fy ngwaith o ystyried cwynion wedi bod yn llai effeithiol a phrydlon.



**Douglas Bain CBE TD**
**Comisiynydd Safonau'r Senedd**

Llofnodi: 13 Gorffennaf 2021

COMISIYNYDD
SAFONAU
STANDARDS
COMMISSIONER

